

Llys Ynadon .....

## Paratoi ar gyfer treial effeithiol

### Rheolau Trefniadaeth Droseddol Rhan 1 a 3.

- Mae'r ffurflen hon yn:
  - casglu gwybodaeth am yr achos y bydd y llys ei hangen er mwyn trefnu treial effeithiol: Rheolau Trefniadaeth Droseddol 3.2 a 3.3
  - cofnodi cyfarwyddyd y llys: Rheolau Trefniadaeth Droseddol 3.5
- Ar ôl i'r llys roi cyfarwyddyd am dreial, os:
  - bydd yr wybodaeth am yr achos yn newid, neu
  - eich bod yn meddwl fod angen cyfarwyddyd arall**Rhaid i chi ddweud wrth y llys ar unwaith:**  
Rheolau Trefniadaeth Droseddol 1.2(1) a 3.10

- Os yw'r diffynnydd yn pledio'n ddieuog, a'i bod yn ofynnol gan y llys:
  - bydd rhaid i'r erlynydd lenwi Rhannau 1, 2 a 4
  - bydd rhaid i'r diffynnydd lenwi Rhannau 1, 3 a 4
  - bydd y llys yn cofnodi cyfarwyddiadau yn Rhannau 4 a 5.

Gweler y canllawiau ar wahân ar ddefnyddio'r ffurflen hon.

Mae lle gwag ychwanegol ar dudalen 4, neu atodwch daflenni ychwanegol os oes angen. Bydd y fersiwn electronig o'r ffurflen hon yn ehangu.\*

**Ceir rhestr o'r terfynau amser paratoi achos ar dudalen 7.**

### Manylion cyswllt y llys

Cyfeiriad	Ffôn Ffacs
E-bost	

### Rhan 1: i'w llenwi gan yr erlynydd a'r diffynnydd (neu gynrychiolydd y diffynnydd)

#### Y diffynnydd

	Dyddiad geni : Oed:           blwyddyn
--	-------------------------------------------

<input type="checkbox"/> Gwŷs	<input type="checkbox"/> Cyhuddiad	<input type="checkbox"/> Mechnïaeth
<input type="checkbox"/> Gofyniad	<input type="checkbox"/> Dalfa	Terfyn amser yn dod i ben:

#### Trosedd(au)

--

#### URN Heddlu / GEG

	Dyddiad y gwrandawriad cyntaf	
--	-------------------------------	--

### 1 Manylion cyswllt yr erlyniad

Yr awdurdod  
erlyn

	Ffôn Ffacs
E-bost	

### 2 Manylion cyswllt y diffynnydd

Y diffynnydd

Cyfeiriad	Ffôn Symudol
E-bost	

### 3 Cynrychiolydd y diffynnydd (os yw'n berthnasol)

Cyfreithiwr

	Ffôn Ffacs Cyf
Cyfeiriad	
E-bost	

Cynrychiolaeth:

Cynrychiolydd y diffynnydd i lenwi

cymorth cyfreithiol wedi'i ganiatáu

wedi gwneud cais am gymorth cyfreithiol

wedi'i ariannu'n breifat

---

## Rhan 2: i'w llenwi gan yr erlynydd

---

### 4 Gwybodaeth rheoli achos

- 4.1 A oes unrhyw ymholiadau neu ymchwiliadau yn dal i gael eu gwneud?  
Os oes, rhowch fanylion byr:  Oes  Nac oes
- 4.2 A yw'r erlynydd yn bwriadu cyflwyno rhagor o dystiolaeth?  
Os ydy, rhowch fanylion byr:  Ydy  Nac ydy
- 4.3 A yw'r erlynydd yn bwriadu cyflwyno diagram, bras-fap neu luniau?  
Os ydy, rhowch fanylion byr:  Ydy  Nac ydy
- 4.4 Bydd yr erlyniad yn dibynnu ar:   
*Ticiwch / dilêwch fel sy'n briodol* addefiadau'r diffynnydd mewn cyfweiliad   
methiant y diffynnydd i grybwyll ffeithiau mewn cyfweiliad   
[crynodeb] [cofnod] o gyfweiliad y diffynnydd   
tystiolaeth [arbenigol] [achlust] [cymeriad drwg]   
tystiolaeth [CCTV] [wedi'i chofnodi'n electronig]
- 4.5 Pa gyfarpar (cyswllt byw/ chwaraewr DVD neu gyfrwng arall, ayyb) y bydd ei angen ar yr erlynydd yn ystafell llys y treial?  
*Rhaid i'r erlynydd sicrhau y gellir chwarae unrhyw DVD neu gyfrwng electronig arall yn yr ystafell llys.*
- 4.6 A yw'r erlynydd yn rhagweld ar hyn o bryd y bydd yr achos yn cynnwys pwynt o gyfraith a /  
neu ffaith sy'n gymhleth, yn newydd neu'n anarferol? *Bydd yr wybodaeth hon yn helpu'r  
swyddog llys i restru'r achos yn effeithiol.*  Ydy  Nac ydy  
Os hynny, beth?
- 4.7 A gydymffurfiodd â'r ddyletswydd ddatgelu cychwynnol o ran deunydd yr erlyniad nas  
defnyddiwyd?  Do  Naddo  
Os do, pa bryd?

### 5 Ceisiadau am gyfarwyddiadau

- 5.1 A yw'r erlynydd yn dymuno i'r llys amrywio'r terfyn amser safonol ar gyfer paratoi ar gyfer  
treial?  Ydy  Nac ydy  
Os ydy, rhowch fanylion:
- 5.2 A yw'r erlynydd yn dymuno i'r llys drefnu trafodaeth am reolau sylfaenol ar gyfer holi?  
*Os penodir cyfryngwr, rhaid i'r llys drafod rheolau sylfaenol â'r cyfryngwr a'r eiriolwyr. Gall  
trafodaeth fod o gymorth mewn achosion eraill.*  Ydy  Nac ydy
- 5.3 A yw'r erlynydd am i'r llys wneud unrhyw gyfarwyddyd arall?  Ydy  Nac ydy  
Os ydy, rhowch fanylion:

---

## Rhan 3: i'w llenwi gan y diffynnydd (neu gynrychiolydd y diffynnydd)

---

### 6 Cyngor ynghylch pledio ac absenoldeb

A yw'r diffynnydd yn deall:

- (a) y caiff ef neu hi gredyd am bledio'n euog?  Ydy  Nac ydy  
Gall ple euog effeithio ar y ddedfryd ac unrhyw orchymyn am  
gostau a chosbau ariannol eraill
- (b) y gall y treial fynd rhagddo hyd yn oed os nad yw'n bresennol?  Ydy  Nac ydy  
*Rheolau Trefniadaeth Droseddol, rheol 24.12*

## 7 Ple 'euog' rannol neu wahanol

- 7.1 Os oes mwy nag un drosedd yn cael ei honni, a yw'r troseddwr am bledio'n euog i unrhyw rai ohonynt?  
Os ydyw, pa drosedd(au)?  Ydy  Nac ydy  Amh
- 7.2 A yw'r diffynnydd am bleidio'n euog, ond nid ar sail y ffeithiau a honnir?  
Os ydyw, rhaid rhoi nodyn ysgrifenedig i'r llys o'r ffeithiau y mae'r diffynnydd eisiau pledio'n euog iddynt.  Ydy  Nac ydy
- 7.3 A yw'r diffynnydd am bleidio'n euog, ond i drosedd wahanol?  
Os yw, pa drosedd?  Ydy  Nac ydy

## 8 Gwybodaeth rheoli achos

- 8.1 *Dylai manylion cychwynnol achos yr erlyniad fod wedi'u cyflwyno: Rheolau Trefniadaeth Droseddol 8.2 Pwrpas y datganiadau isod yw helpu'r llys i ddarganfod beth yr anghytunir arno a rhoi cyfarwyddiadau priodol ar gyfer y treial. (Ticiwch y blwch priodol)*
- [Cyflawnodd y diffynnydd] [Cymerodd y diffynnydd ran yn] yr ymddygiad honedig  Do  Naddo  Amh
- Roedd y diffynnydd yn bresennol yn y man lle digwyddodd y drosedd honedig  Oedd  Nag oedd  Amh
- Cafodd y diffynnydd ei adnabod yn gywir  Do  Naddo  Amh
- Cafodd y diffynnydd ei arestio'n gyfreithlon  Do  Naddo  Amh
- [Natur yr anaf] [maint y golled neu'r difrod]  
Os na chytunir, eglurwch beth sy'n destun dadl:  Ie  Na  Amh
- Tystiolaeth [ôl bysedd] [DNA]  Ie  Na  Amh  
Os na chytunir, eglurwch beth sy'n destun dadl:
- Tystiolaeth [feddygol] [adnabod cyffur] [wyddonol arall]  Ie  Na  Amh  
Os na chytunir, eglurwch beth sy'n destun dadl:
- Cafodd y drefn profi am [alcohol] [cyffuriau] ei gweithredu'n gywir  Ie  Na  Amh  
Os na chytunir, eglurwch beth sy'n destun dadl:
- Cafodd arddangosion a samplau eu casglu a'u danfon fel y nodwyd (h.y. dilyniant)  Do  Naddo  Amh  
Os na chytunir, eglurwch beth sy'n destun dadl:
- Mae'r [crynodeb] [cofnod] o gyfweiliad y diffynnydd yn gywir  Ydy  Nac ydy  Amh  
Os na chytunir, eglurwch beth sy'n destun dadl:
- Roedd y diffynnydd [wedi'i wahardd rhag gyrru] [yn destun i'r gorchymyn llys honedig] ar adeg y drosedd honedig  Oedd  Nag oedd  Amh
- Mae'r rhestr o euogfarnau blaenorol y diffynnydd yn gywir  Ydy  Nac ydy  Amh  
Os na chytunir, eglurwch beth sy'n destun dadl:
- 8.2 Beth yw'r materion o ffaith neu gyfraith **SY'N DESTUN DADL** ar gyfer treial, yn ychwanegol at unrhyw rai a nodwyd ym mharagraff 8.1? *Rhowch fanylion: Pwrpas y cwestiwn yw helpu'r llys i ddarganfod beth yr anghytunir arno a rhoi cyfarwyddiadau priodol ar gyfer y treial.* *Rheolau Trefniadaeth Droseddol 3.2(2)(a) a 3.3(1)(a)*

- 8.3 A fydd y diffynnydd yn rhoi datganiad amddiffyn? *Rhywbeth gwirfoddol yw rhoi datganiad amddiffyn, ond os rhoddir un rhaid iddo gynnwys y wybodaeth a gasglwyd ym mharagraffau 8.1 ac 8.2 a rhaid iddo hefyd gynnwys manylion am ffeithiau y mae'r amddiffyniad yn dibynnu arnynt.*  Bydd  Na fydd
- 8.4 A fydd ar y diffynnydd angen unrhyw gyfarpar cyswllt byw, neu chwaraewr DVD neu gyfrwng arall ayyb, yn ystafell llys y treial? *Rhaid i'r diffynnydd sicrhau y gellir chwarae unrhyw DVD neu gyfrwng electronig arall yn yr ystafell llys.*
- 8.5 A yw'r diffynnydd yn rhagweld ar hyn o bryd y bydd yr achos yn cynnwys pwynt o gyfraith a / neu ffaith sy'n gymhleth, yn newydd neu'n anarferol? *Bydd yr wybodaeth hon yn helpu'r swyddog llys i restru'r achos yn effeithiol. Os hynny, beth?*  Bydd  Na fydd

## 9 Addefiadau

- A ellir cofnodi unrhyw ffeithiau nad ydynt yn destun dadl mewn addefiad ysgrifenedig?  Gellir  Na ellir
- Mae ffeithiau nad ydynt yn destun dadl yn gallu cynnwys unrhyw ddatganiad sydd wedi'i dderbyn ym mharagraff 8.1*
- Os gellir, mae addefiad ysgrifenedig [wedi'i nodi yma] [ynghlwm] [i'w gyflwyno'n ddiweddarach].
- Mae ffeithiau a addefir yn dystiolaeth: Rheolau Trefniadaeth Droseddol rheol 24.6 a Deddf Cyfiawnder Troseddol 1967, a.10*
- Os na ellir, eglurwch pam:

## 10 Ceisiadau am gyfarwyddiadau

- 10.1 A yw'r diffynnydd eisiau i'r llys amrywio terfyn amser safonol ar gyfer paratoi treial?  Ydy  Nac ydy  
Os ydy, rhowch fanylion:
- 10.2 A yw'r diffynnydd yn dymuno i'r llys drefnu trafodaeth am reolau sylfaenol?  Ydy  Nac ydy  
*Os penodir cyfryngwr, rhaid i'r llys drafod rheolau sylfaenol â'r cyfryngwr a'r eiriolwyr. Gall trafodaeth fod o gymorth mewn achosion eraill.*
- 10.3 A yw'r diffynnydd am i'r llys wneud unrhyw gyfarwyddyd arall?  Ydy  Nac ydy  
Os ydy, rhowch fanylion:

## 11 Dewis iaith

- 11.1 A yw'r diffynnydd wedi cael ei gynghori o ran ei hawl i siarad Cymraeg neu Saesneg yn y llys?  Do  Naddo  
*Yn unol ag adran 22(1) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a phrotocol y llysoedd ynadon ar gyfer rhestru achosion lle defnyddir yr iaith Gymraeg.*
- 11.2 A yw'r diffynnydd eisiau siarad Cymraeg neu Saesneg yn y llys?  Cymraeg  Saesneg

---

## **Rhannau 2 a 3 parhad: gwybodaeth ychwanegol**

---

Gallwch gofnodi gwybodaeth ychwanegol yn y bwllch hwn, neu barhau ag ateb yr ydych wedi'i ddechrau uchod

### Rhan 4: i'w llenwi gan yr erlynydd, y diffynnydd (neu gynrychiolydd y diffynnydd) a'r llys

#### 12 Tystion yr Erlyniad. Rhaid i chi ddweud wrth y llys ar unwaith os bydd yr wybodaeth hon yn newid: Rheolau Trefniadaeth Droseddol 1.2(1) a 3.10

Enw'r tyst	Yr erlynydd i lenwi				Y diffynnydd i lenwi	I'w llenwi gan y ddau barti		I'r llys		
	Ticiwch os o dan 18	Ticiwch os yw'r tyst yn dymuno rhoi ei dystiolaeth yn Gymraeg	Iaith arall (ieithoedd eraill) - A oes angen cyfieithydd? Os oes, ar gyfer pa iaith a thafodiaith	A oes angen mesurau arbennig neu fesurau eraill? Os hynny, nodwch.**	Pa fater sy'n destun dadl yn yr achos sy'n ei wneud yn angenrheidiol bod y tyst yn rhoi dystiolaeth yn bersonol?	E	A	Ticiwch os bydd angen cyswllt byw	Holiad blaenaf	Croesholiad
1)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>				<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>		
2)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>				<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>		
3)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>				<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>		
4)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>				<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>		
5)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>				<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>		
6)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>				<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>		

#### 13 Tystion yr Amddiffyniad a ddisgwylir. Rhaid i chi ddweud wrth y llys ar unwaith os bydd yr wybodaeth hon yn newid: Rheolau Trefniadaeth Droseddol 1.2(1) a 3.10

Enw'r tyst	Y diffynnydd i lenwi				Pam ei fod yn angenrheidiol bod y tyst yn rhoi dystiolaeth yn bersonol?	I'w llenwi gan y ddau barti		I'r llys		
	Ticiwch os o dan 18	Ticiwch os yw'r tyst yn dymuno rhoi ei dystiolaeth yn Gymraeg	Iaith arall (ieithoedd eraill) - A oes angen cyfieithydd? Os oes, ar gyfer pa iaith a thafodiaith	A oes angen mesurau arbennig neu fesurau eraill? Os hynny, nodwch.**		A	E	Ticiwch os bydd angen cyswllt byw	Holiad blaenaf	Croesholiad
1)*	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>				<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>		
2)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>				<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>		
3)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>				<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>		

\*Os yw'r diffynnydd yn debygol o roi dystiolaeth, rhestrwch ef neu hi'n dyst cyntaf a ragwelir dros yr amddiffyniad. \*\*Mae mesurau arbennig neu fesurau eraill yn gallu cynnwys sgriniau, rhoi dystiolaeth drwy gyswllt byw neu'n breifat, cyfweiliad wedi'i recordio gan beiriant fideo yn dystiolaeth, cyfryngwr, seibiannau wrth holi neu fesurau eraill i ddarparu ar gyfer anabledd. Gallant olygu y bydd angen mwy o amser ar gyfer y tyst. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl na chaniateir i'r diffynnydd groesholi tyst dros yr erlyniad.

## Rhan 5: cofnod o benderfyniadau a chyfarwyddiadau'r llys ar gyfer treial effeithiol

- 14 Cyfarwyddiadau ar gyfer treial** *Rhaid i'r llys reoli'r achos yn weithredol drwy roi unrhyw gyfarwyddyd sy'n briodol yn ôl anghenion yr achos hwnnw mor fuan â phosibl. Rheolau Trefniadaeth Droseddol 3.2(3) Llenwch neu dilëwch y canlynol fel sy'n briodol.*
- 14.1 Rhaid i'r erlynydd gyflwyno unrhyw dystiolaeth bellach erbyn: (dyddiad)
- 14.2 Os na chydymffurfiwyd â'r ddyletswydd datgelu cychwynnol, rhaid i'r erlynydd gydymffurfio erbyn: (dyddiad)
- 14.3 Rhaid i barti sydd am ddefnyddio chwaraewr DVD neu gyfrwng arall, ayyb. sicrhau cyn y treial y gellir ei chwarae yn yr ystafell llys.
- 14.4 Mae'r llys yn disgwyl mai dim ond y tystion a restrwyd yn rhai a fydd yn bresennol yn Rhan 4 a fydd yn rhoi dystiolaeth yn bersonol ac y bydd dystiolaeth tystion eraill yn cael ei darllen.
- 14.5 [Gwŷs / gwarant tystio] [camau eraill i sicrhau presenoldeb] ar gyfer tyst(ion): Nodwch yr enw(au) *Rheolau Trefniadaeth Droseddol. Rhan 17; rheol 3.9(3)*
- 14.6 Os yw'r diffynnydd neu unrhyw un o'r tystion (fel a nodwyd yn Rhan 3 a Rhan 4) yn dymuno siarad Cymraeg yn y treial, dylid trefnu i gael barnwr/ ynadon a chynghorydd cyfreithiol sy'n gallu siarad Cymraeg ar gyfer y treial os yw'n bosibl. *Os nad yw'r uchod yn bosibl neu os oes unrhyw barti arall yn yr achos sydd ddim yn deall Cymraeg, yna mae angen cyfieithydd Cymraeg. Gweler SOP Booking and Payment of Welsh Language Interpreters neu cysylltwch â'r Uned Iaith Gymraeg GLITEM.*
- 14.7 Mae angen cyfieithu yn yr iaith/ieithoedd a nodwyd yn Rhan 4 ar gyfer: I'w drefnu gan:
- |  |              |                                   |                                              |
|--|--------------|-----------------------------------|----------------------------------------------|
|  | (diffynnydd) | Staff y Llys                      | <i>Rheolau Trefniadaeth Droseddol 3.9(5)</i> |
|  | (tyst)       | Erlynydd <input type="checkbox"/> | Diffynnydd <input type="checkbox"/>          |
- 14.8 Cyfarwyddir mesurau arbennig neu fesurau eraill e.e. cyswllt byw ar gyfer: Fel y nodwyd yn:
- |  |              |                                 |                                          |
|--|--------------|---------------------------------|------------------------------------------|
|  | (diffynnydd) | Rhan 4 <input type="checkbox"/> | paragraff 13.11 <input type="checkbox"/> |
|  | (tyst)       | Rhan 4 <input type="checkbox"/> | paragraff 13.11 <input type="checkbox"/> |
|  | (tyst)       | Rhan 4 <input type="checkbox"/> | paragraff 13.11 <input type="checkbox"/> |
- 14.9 Bydd y llys yn trafod rheolau sylfaenol ar gyfer holi ar: (dyddiad)  
*Os penodir cyfryngwr ar gyfer tyst neu ar gyfer y diffynnydd, rhaid i'r llys drafod y rheolau sylfaenol ar gyfer holi â'r cyfryngwr a'r eiriolwyr cyn i'r tyst neu ddiffynnydd roi dystiolaeth. Rhaid caniatáu digon o amser ar gyfer hyn.*
- 14.10 Ni chaiff y diffynnydd yn bersonol groesholi'r tyst(ion): nodwch yr enw(au) *Rheolau Trefniadaeth Droseddol Rhan 23*  
ac mae'r llys yn cyfarwyddo'r unigolyn isod i groesholi ar gyfer y pwrpas hwn: enw'r cynrychiolydd
- 14.11 Bydd y terfynau amser safonol ar gyfer paratoi ar gyfer treial yn gymwys [ac eithrio] [gyda'r amrywiadau hyn]:
- 14.12 Cyfarwyddiadau eraill:

**15 Trefniadau ar gyfer y treial**

Dyddiad:

Amser:

Llys:

Hyd amcanol y treial:

gan gynnwys:

	Categori'r Llys:
..... awr	
Tystiolaeth a chyflwyniadau: ..... Trafodaethau a phenderfyniad: .....	
<i>Rhaid ystyried amserlen fanwl ar gyfer y treial a'i hatodi os bydd angen:</i>	
<i>Rheolau Trefniadaeth Droseddol 3.9 a 3.11</i>	

Wedi i'r llys roi cyfarwyddiadau ar gyfer treial, os bydd gwybodaeth am yr achos yn newid, neu os credwch fod angen cyfarwyddyd arall, **rhaid i chi ddweud wrth y llys ar unwaith:** Rheolau Trefniadaeth Droseddol 1.2(1) a 3.10

**Llofnodion** ..... [ar gyfarwyddyd] [llys]

Llofnod: ..... ar ran yr erlyniad

Llofnod: ..... [diffynnydd] [cyfreithiwr y diffynnydd]

Dyddiad: .....



## Terfynau amser safonol ar gyfer paratoi ar gyfer treial

*Gall y llys amrywio unrhyw un o'r terfynau amser hyn. Nid yw terfynau amser a nodwyd â seren \* wedi'u rhagnodi mewn rheolau neu mewn deddfwriaeth arall.*

*Y cyfanswm amser sy'n ofynnol i gydymffurfio â'r holl derfynau amser hyn yw 6 wythnos (9 wythnos os yw paragraff m yn berthnasol)*

**Addefiadau ysgrifenedig (Rheolau Trefniadaeth Droseddol, rheol 24.6; Deddf Cyfiawnder Troseddol 1967, a.10)**

- a. Rhaid i'r partion gyflwyno unrhyw addefiadau ysgrifenedig o ffeithiau y cytunir arnynt o fewn **14 diwrnod**.\*

**Datganiad amddiffyn (Rheolau Trefniadaeth Droseddol, rheol 15.4; Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996, a.6)**

- b. Rhaid cyflwyno unrhyw ddatganiad amddiffyn o fewn **14 diwrnod** wedi i'r erlynydd gydymffurfio â'r ddyletswydd ddatgelu gychwynnol.

**Tystion yr amddiffyniad (Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996, a.6C)**

- c. Rhoi gwybod am enwau tystion yr amddiffyniad ayyb o fewn **14 diwrnod** wedi i'r erlynydd gydymffurfio â'r ddyletswydd ddatgelu gychwynnol.

**Cais am ddatgeliad (Rheolau Trefniadaeth Droseddol, rheolau 15.2 & 15.5; Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996, a.8)**

- d. Rhaid i'r diffynnydd gyflwyno unrhyw gais am orchymyn am ddatgeliad gan yr erlyniad cyn gynted ag sy'n ymarferol o fewn rheswm ar ôl i'r erlynydd gydymffurfio â'r ddyletswydd gychwynnol i ddatgelu.\* Dan a.8 o Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996, ni ellir gwneud cais o'r fath oni bai bod datganiad yr amddiffyniad wedi ei gyflwyno.
- e. Rhaid i'r erlynydd gyflwyno unrhyw sylwadau mewn ymateb o fewn **14 diwrnod** ar ôl hynny.

**Datganiadau gan dystion (Rheolau Trefniadaeth Droseddol, rheol 16.4; Deddf Cyfiawnder Troseddol 1967, a.9)**

- f. Rhaid i'r diffynnydd gyflwyno unrhyw ddatganiad gan dystion yr amddiffyniad sydd i gael eu darllen yn y treial o leiaf **14 diwrnod cyn y treial**.\*
- g. Rhaid gwneud unrhyw wrthwynebiad rhag i ddatganiad gan dyst gael ei ddarllen yn y treial o fewn **7 diwrnod i'r datganiad gael ei gyflwyno**. *Nid yw hyn yn berthnasol i'r datganiadau a restrir yn Rhan 4.*

**Mesurau i helpu tyst neu ddiffynnydd i roi tystiolaeth (Rheolau Trefniadaeth Droseddol, rheolau 18.3, 18.13, 18.17, 18.22, 18.26)**

- h. Rhaid i unrhyw gais [pellach] am fesurau arbennig neu fesurau eraill gael ei gyflwyno o fewn **28 diwrnod**.
- i. Rhaid i unrhyw sylwadau mewn ymateb gael eu cyflwyno o fewn **14 diwrnod ar ôl hynny**.

**Croesholi lle nad yw'r diffynnydd yn cael ei gynrychioli (Rheolau Trefniadaeth Droseddol, rheolau 23.2, 23.4)**

- j. Rhaid i'r diffynnydd gyflwyno rhybudd am unrhyw gynrychiolydd a benodir i groesholi o fewn **7 diwrnod**.
- k. Rhaid i'r erlynydd gyflwyno unrhyw gais i wahardd croesholi gan y diffynnydd yn bersonol cyn gynted ag sy'n ymarferol o fewn rheswm.
- l. Rhaid i unrhyw sylwadau mewn ymateb gael eu cyflwyno o fewn **14 diwrnod ar ôl hynny**.

**Tystiolaeth arbenigol (Rheolau Trefniadaeth Droseddol, rheolau 19.3, 19.4)**

- m. Os bydd y naill barti neu'r llall yn dibynnu ar dystiolaeth arbenigol, bydd y cyfarwyddyd isod yn berthnasol.
- (i) Rhaid i adroddiad yr arbenigwr gael ei gyflwyno o fewn **28 diwrnod**.\*
  - (ii) Rhaid i barti sydd am i'r arbenigwr hwnnw fod yn bresennol yn y treial roi rhybudd o fewn **7 diwrnod ar ôl (i)**.\*
  - (iii) Rhaid i barti sy'n dibynnu ar dystiolaeth arbenigol mewn ymateb ei chyflwyno o fewn **14 diwrnod ar ôl (ii)**.\*
  - (iv) Rhaid cael cyfarfod o arbenigwyr dan reol 19.6 o fewn **14 diwrnod ar ôl (iii)**.\*
  - (v) Rhaid i'r partion hysbysu'r llys **yn ddi-oed ar ôl (iv)** os bydd canlyniad y cyfarfod yn effeithio ar hyd y treial.\*

**Tystiolaeth achlust (Rheolau Trefniadaeth Droseddol, rheolau 20.2, 20.3)**

- n. Rhaid i'r erlynydd gyflwyno unrhyw rybudd i gyflwyno tystiolaeth achlust o fewn **28 diwrnod**.
- o. Rhaid i'r diffynnydd gyflwyno unrhyw rybudd i gyflwyno tystiolaeth achlust cyn gynted ag sy'n ymarferol o fewn rheswm.
- p. *Rhaid i unrhyw gais i benderfynu ar wrthwynebiad i dystiolaeth achlust gael ei gyflwyno o fewn **14 diwrnod i gyflwyno**'r rhybudd neu'r dystiolaeth.*

**Tystiolaeth o gymeriad drwg (Rheolau Trefniadaeth Droseddol, rheolau 21.2, 21.3, 21.4)**

- q. Rhaid i'r erlynydd gyflwyno unrhyw rybudd i gyflwyno tystiolaeth o gymeriad drwg y diffynnydd o fewn **28 diwrnod**.
- r. Rhaid i unrhyw gais i benderfynu ar wrthwynebiad i'r rhybudd hwnnw gael ei gyflwyno o fewn **14 diwrnod ar ôl hynny**.
- s. *Rhaid i unrhyw gais i gyflwyno tystiolaeth am gymeriad drwg rhywun ar wahân i ddiffynnydd gael ei gyflwyno o fewn **14 diwrnod i ddatgeliad yr erlyniad**.*
- t. Rhaid i unrhyw rybudd am wrthwynebiad i'r dystiolaeth honno gael ei gyflwyno o fewn **14 diwrnod ar ôl hynny**.

**Tystiolaeth am ymddygiad rhywiol blaenorol (Rheolau Trefniadaeth Droseddol, rheolau 22.2, 22.3, 22.4, 22.5)**

- u. Rhaid i'r diffynnydd gyflwyno unrhyw gais am ganiatâd i gyflwyno tystiolaeth am ymddygiad rhywiol blaenorol achwynydd o fewn **28 diwrnod i ddatgeliad yr erlyniad**.
- v. Rhaid i'r erlynydd gyflwyno unrhyw sylwadau mewn ymateb o fewn **14 diwrnod ar ôl hynny**.

**Pwynt o gyfraith, gan gynnwys camddefnyddio proses etc. (Rheolau Trefniadaeth Droseddol, rheolau 3.3, 3.10)**

- w. Rhaid i unrhyw ddadl fframwaith gael ei chyflwyno o leiaf **14 diwrnod cyn y treial**.\*
- x. Rhaid i unrhyw ddadl fframwaith mewn ymateb gael ei chyflwyno o fewn **7 diwrnod ar ôl hynny**.\*

**Parodrwydd ar gyfer treial (Rheolau Trefniadaeth Droseddol, rheolau 3.3, 3.10)**

- y. Rhaid i'r partion dystio eu bod yn barod ar gyfer treial o leiaf **14 diwrnod cyn y treial**\*, gan gadarnhau pa dystion fydd yn rhoi tystiolaeth yn bersonol a'r amcangyfrif o hyd y treial.

Tachwedd 2015